Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

600090562S

1 11142 f 41

*Gweinidog wedi marw, yn llafaru etto.*

S E F,

# CYNHWYSIAD DWY BREGETH,

A bregethwyd, *Tachwedd* 11, 1770.

Ar Farwolaeth

Y Parch. GEO. WHITFFILD, *A. M.*

Gynt o Goleg Penbro yn RHYDYCHEN,

Caplain yr anrhydeddus

Iarlles HUNTINGTON.

---

Gan y Parch. Mr. D. EDWARDS.

A gyfieithwyd i'r GYMRAEG

Gan y Parch. Mr. P. WILLIAMS.

---

DANIEL xii. 3.

*A'r Doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder a* fyddant *fel y ser, byth yn dragywydd.*

SALM cxii. 6.

*Y Cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth.*

---

CAERFYRDDIN,

Argraphwyd tros y CYFIEITHYDD, gan I. Ross. 1771.

[Pris Dwy Geiniog.]

LLYFRAU wedi eu hargraphu, ac ar werth gan I. Ross yng *Nghaerfyrddin.*

I. Y BIBL SANCTAIDD, gyd â Nodau a Sylwiadau ar bob Pennod, gan y Parchedig Mr. P. WILLIAMS, ynghyd â 'r Apocrypha; wedi ei rwymo. Pris 1 *b*. 1 *s*.

II. Agoriad i Athrawiaeth y ddau Gyfammod, dan yr enwau Deddf a Gras. Pris Swllt.

III. Teml Salomon ynghyd â'i Pherthynasau, wedi ei hysprydoli. Pris 9 *c*.

IV. Tyred a groesaw at Iesu Grist. Pris 10 *c*.

V. Yr Aberth Cymmeradwy: neu, Ragoriaeth Calon ddrylliog. Yn dangos Nattur, Arwyddion, ac Effeithiau priodol Yspryd drylliedig. Pris 6 *c*.

VI. Y Ffigys-bren anffrwythlon; neu, Esponiad ar Ddammeg y Ffigys-bren diffrwyth. Pris 4 *c*.

VII. Myfyrdodau ar y pedwar Peth diweddaf, sef, Angeu, Barn, Nef ac Uffern, ar Fesur Cerdd. Pris 3 *c*.

VIII. Taith y Pererin. Pris 9 *c*.

*Y saith uchod gan y Gwas ffyddlon hwnnw 'o eiddo Iesu Grist, Mr.* IOAN BUNYAN.

IX. Duwioldeb Rhydychen: neu, Hanes gyflawn a diduedd am chwech o Ysgolheigion a fwriwyd allan o Neuadd-golegol St. *Edmwnd*, yn *Rhydychen*, gyd â Llythyr cyflwyniad at yr anrhydeddus Iarll *Litchffild*, Canghellor y Brif-Ysgol honno. Gan Athraw'r Celfyddydau, o Brif-Ysgol *Rhydychen*. Pris 6 *c*.

X. Gwaedd yng Nghymru yn Wyneb pob Cydwybod, gan *Morgan Llwyd* o Wynedd. Pris 2*g*.

XI. Gweledigaethau y Bardd Cwsg. Pris 6 *c*.

XII. Ar fyrder y Llyfr a elwir, *Pob Dyn ei Physygwr ei hun*, yn cynnwys amryw o gyfarwyddiadau i wellhau y rhan fwyaf o glefydau, &c. ar ddyn ac anifail, wedi ei gasglu allan o waith yr Awdwyr goreu yn yr Oes. Pris 6 *c*.

# Y CYFLWYNIAD.

## *At y rhai a fuont gynt dan Weinidogaeth y Parchedig Mr.* WHITFFIELD.

*Anwyl Frodyr,*

GWeinidogion Criſt yn iaith yr yſgrythur, a elwir yn ſer, o herwydd goleuni eu hathrawiaeth a'u heffeithiau buddiol. Ac megis y rhagora " ſeren ar ſeren mewn gogoniant," felly y bydd y ſer yſbrydol yn yr adgyfodiad; ac felly yn breſennol yn yr eglwys, y mae rhai gweinidogion yn rhagori mewn doniau, ac yn effeithioldeb eu gweinidogaeth : ac o'r cyfryw nifer yr oedd y dyſgawdwr hwnnw, *y parchedig Mr.* WHITFFIELD, enwog ymhlith ei frodyr o ran dyſg, doniau a graſuſau. Oni allaf lafaru wrthych yngeiriau St Paul wrth Timotheus ? 2 *Tim.* iii. 10. *Chwi a wyddoch ei athrawiaeth*, &c. chwi a wyddoch mai fel tad toſturiol yr ymddygodd yn eich plith chwi. Yr oedd gwirionedd, goleuni, ac yſpryd y gair yn ei bregethau, a'i galon yn lloſgi o gariad a zel at ogoniant Criſt a iechydwriaeth dynion. Efe a addaſai ei ymadrodd at gyflwr y cryf a'r gwan, dyallus ac annyallus ; a chan doſturio wrthynt efe a ddyſgai 'r tlawd yn gyſtal a'r cyfoethog. Mawr oedd ein colled o'i golli ef. Prin y medraf ymattal rhag dagrau tra yr wyf yn yſgrifennu ; fy

 ffyddlon.

ffyddlon gyfaill oedd. Yr wyf yn cydymdeimlo â chwi, fy mrodyr, o herwydd symmud y cyfryw athro digymmar o'n mysg, colled a gŵynir gan bawb, ond pwy un a leinw ei le? ni a ddylem ddywedyd yn ymadrodd y prophwyd, "Arglwydd dangos i ni "pa ham yr wyt yn ymryson â ni?" Fy nghyfeillion crist'nogol, yr wyf yn cyflwyno i chwi y traethawd canlynol, megis dyled rhwymedig arnaf dalu i'w goffadwriaeth ef, ac a ddibennaf yr annerch hwn trwy ddwyn ar gof i chwi, Er fod gweinidogion yn meirw, y mae'r Iesu yn fyw: ac y mae efe gyd â mawr dynerwch yn gofalu am ei ddefaid. Sicr yw ei addewid, "Rhoddaf i chwi fugeiliaid wrth fodd fy nghalon." Y mae yr yspryd yngweddill ganddo; ac yr wyf yn gobeithio y nertha efe y gweinidogion ffyddlon sydd etto yn llafurio yn eich mysg. Gweddiwch gyd â, a thros, eich gilydd. Ymgedwch yng nghariad ac ofn Duw, felly y gellwch yn gysurus ddisgwyl am ddiddanwch yr Yspryd, a phresenoldeb Duw yn eich plith. Hyn yw dymuniad,

*Eich Brawd, a'ch*

*Cyfaill mewn Cystudd,*

D. E.

HEB.

HEB. xi. 4.

———*Trwyddi hi efe wedi marw, sydd yn llafaru etto.*

Y Bennod hon a elwir, gan rai, Merthyrolaeth Sant Paul. Actau'r duwiolion ydyw, ym mha un y mae'r Apostol trwy gyfarwyddyd yr Yspryd Glân yn rhoddi hanes ffyddlon a pharchus am weithrediadau gogoneddus, a buddugoliaethau gorfoleddus ffydd y patrieirch gynt, prophwydi a merthyron, y rhai nid oedd y byd deilwng o honynt. Yn nechreu y cof-restr ardderchog hwn y cawn Abel y merthyr cyntaf, er ei glod fe grybwyllir yma am dri pheth:

1. Efe a offrymmodd aberth rhagorach nâ Chain; o herwydd ei ffydd a'i arweiniodd i weled Oen Duw; eithr ni's gwelodd Cain ef. Ac yn ol y ddwyfol dystiolaeth hon fe'n cyfarwyddir i ymddiried trwy ffydd yn y cyfammod holl-ddigonol a seliodd Iesu Grist â'i waed ei hun.

2. Efe a gyfiawnhawyd ger bron Duw, *trwy yr hon*, medd Paul (sef ffydd) y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn; Duw a edrychodd ar ei offrwm.

3. Ei goffadwriaeth sydd werthfawr, y mae adsain ei rinweddau yn parhau gwedi angau, "trwyddi hi y mae efe wedi marw yn llafaru etto."

Y mae 'r geiriau yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, megis dychymmyg. Onid yw yn rhyfedd fod un o'r cynfyd, sef ail fab Adda, a'r cyntaf a fu farw o holl ddynol-ryw, sef er ys pum mil o flynyddoedd ac uchod, yn llafaru etto? Y mae'r meirw yn fyddar (fel y garreg) ac ni's gallant glywed, er fod eglwys Rufain mor ynfyd a gweddio ar seintiau wedi marw; ac fe ddywed yr Ysgrythur *na's gŵyr Abraham am danom, ac na'n cyd-*

*nebydd Iſrael*——Ond er eu bod yn fyddar (o ran corph) etto nid ydynt fud o blegid eu rhinwedd, felly, mewn yſtyr, y maent yn llafaru etto. Fe ddywed Salomon fod y drygionns yn llafaru â'i draed, ac yn dyſgu â'i fyſedd, ac â'i lygaid, *&c.* ſef o blegid fod ei gyfeillion mewn drygioni yn deall ei amnaid. *Y mae troſedd y drygionus*, medd y Salmydd, *yn dywedyd yn fy nghalon, nad oes ofn Duw o flaen ei lygaid ef.* Ond, och! pa beth y mae pechaduriaid tywyll, drygionus ac aflan, yn ei ddywedyd? y maent yn eu bywyd yn cyhoeddi eu hynfydrwydd, eu gwagedd, eu creulondeb, eu haflendid a'u hangof o Dduw: a phan y byddont feirw y maent yn gadael eu ffieidd-dra yn ſiamplau arſwydus i eraill ei ochelyd. Y mae barn Duw ar yr annuwiol, weithiau yn peri iddynt lafaru yn groch ar ol marw; eithr y pryd hynny y maent yn llafaru megis llong ddrylliog ar y tywod, neu fel creigiau hyll yn y môr, ſef yn dangos i'r morwyr fod perygl. Y mae Achan, wedi marw, yn llafaru wrth y cybydd a'r trachwantus; Zimri a Choſpi wrth y godinebus; Herod (a yſwyd gan bryfed) yn llafaru wrth y balch; Ananias a Saphira wrth y celwyddog; eithr nid yw yr annuwiol yn bwriadu llafaru dim da; rhagorfraint y ſaint yw llafaru pethau daionus. Felly Abel *ac efe wedi marw ſydd yn llafaru etto*; neu fel y mae rhai yn dewis cyfieithu'r gair, "fe laferir am dano etto." Pa fodd bynnag yr un yw'r addyſg.

Ymofynwn, gan hynny, ym mha yſtyr y mae *Abel gwedi marw yn llafaru etto*; ac yna gwnawn gymhwyſiad.

Y mae efe yn llafaru 1. Fel yr oedd yn ddyn. 2. Fel yr oedd yn gredadyn. 3. Fel yr oedd yn ferthyr.

1. Fel yr oedd yn ddyn, y mae efe yn cyhoeddi marwolaeth i holl ddynol-ryw, *Goſodwyd i bob dyn farw unwaith*, dyma arfaeth Duw. Pan bu farw

Abel.

Abel, yr oedd efe mewn effaith, yn dywedyd i'w holl berthynasau, "Fy mrodyr, cofiwch angau; y mae elfen lygredig yn eich nattur, llwch ydych, ac i'r llwch y dychwelwch, nid oes gyflwr yn y byd a ddichon eich diogelu un funud — edryched pawb arno ei hun, pan y byddo ar y goreu, yn gyffelyb i'r hyn y mae fy enw i yn arwyddoccau, sef *gwagedd*; nac ymddirieded neb i'w cryfdwr, na'u tegwch, na'u hieuengctid, na'u glewder, na'u harfau, canys trech yw angau nâ phawb, nid oes neb all wrthladd ei nerth, ac yn fynych y tery yn ddi-rybudd, ac y cippia wr ymaith heb gyfle i ganu yn iach i'w berthynasau, na chodi gweddi tu a'r nef. Abel a gymmerwyd ymaith yn ddisymmwth yn y maes wrth ymddiddan â'i frawd! da oedd i Abel fod yr Arglwydd yn Dduw iddo. Angau disyfed sydd ogoniant disyfed i gredadyn; eithr i'r annuwiol, y mae angau disyfed yn farn ddisymmwth, ac yn uffern ddisymmwth. Belsasar a gymmerwyd ymaith o'i wledd, a Herod o'i rodres, yn ddirybudd; a'r ynfyd yn y ddammeg, a dynnodd i lawr ei ysguboriau i adeiladu rhai mwy, gan addo pleser iddo ei hun lawer blwyddyn, a gollodd ei enaid y nos honno. Ië, llawer un sydd yn syrthio yn ddisymmwth i lawr o'i gadair ymhlith ei gyfeillion, ac yn parhau yn fyddar byth i gri ei garennydd: rhai a fuont feirw ynghanol eu difyrrwch, eraill wrth fyned neu ddychwelyd o'u taith: a rhai yn y weithred o aflendid, neu greulondeb. Y mae bywyd pawb yn llaw Duw, efe a'i rhoddodd ac a ddichon ei gymmeryd ymaith y pryd a'r modd y mynno, ac ni rydd gyfrif i neb o'i ffyrdd.

II. Y mae Abel megis credadyn yng Nghrist, *er ei fod wedi marw yn llafaru etto.*

1. Y mae efe yn cyhoeddu yn eglur fod gras Duw yn rhad! y mae Duw yn trugarhau wrth y neb y mynno. Rhad ras a wnaeth y gwahaniaeth

rhwng

rhwng Abel a Chain; yr oeddynt ill dau, wrth nattur, yn blant digofaint, wedi dirywio oddiwrth fuchedd Duw, ac wedi eu diwyno gan bechod. Diammau hefyd iddynt gael yr un breintiau â'u gilydd yn nhŷ eu tad, ac i Cain yn gystal ag Abel glywed am y gras a'r iachawdwriaeth a ddaeth trwy Had y wraig, y Messiah mawr; ïe 'r Jehofah gogoneddus ei hun a ymddarostyngodd i ymresymmu ag ef. "Pa ham y llidiaist? a pha ham y syrthiodd dy wynebpryd? os da y gwnei oni chaï oruchafiaeth? *Gen.* iv. 6, 7. eithr efe a ddibrisiodd hyn i gyd, ac a wrthododd air y bywyd tragywyddol, gwel *Act.* xiii. 46. Wele, gan hynny y rhagor rhwng y ddau *frawd* hyn! y naill yn gyfiawn, y llall yn ddrygionus; un yn gymmeradwy, y llall yn anghymmeradwy; un yn blentyn Duw, a'r llall yn fab diafol.

2. Y mae *Abel wedi marw*, yn llafaru etto, gan dystio mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, sef trwy gyfiawnder Crist yn gyfrifedig i'r credadyn: *Trwy ffydd y derbyniodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn.* Yr oedd gan Cain rith o grefydd, fe ddygodd ei aberth, ond nid oedd yn credu yng Nghrist croeshoeliedig! Abel a offrymmodd mewn *ffydd yn yr Immanuel tragywyddol*, sylwedd yr holl ebyrth; yr Oen a laddwydd er seiliad y byd, yr hwn *(yn unig)* sy'n tynnu ymaith bechodau'r byd.

3. *Abel wedi marw sydd yn llafaru etto*, ac yn dangos yn eglur nad yw 'r Crist'nogion goreu bob amser yn ddihangol rhag y croesau chwerwaf, a'r farwolaeth greulonaf; eithr eu bod yn ddarostyngedig i ofid ar ofid. Abel er ei fod yn sant disglair, a fu farw o angau creulon, a hynny trwy ddwylaw brawd! ac a allasai ddywedyd, "Pe gelyn i mi a wnaethai hyn mi a'i dïoddefaswn; eithr dyn, fy mrawd, fy nghydradd, fy hyfforddwr, a'm cydnabod." Eithr,

4. *Abel wedi marw sydd yn llafaru etto*, ac yn tyst-

tyſtiolaethu, er nad yw gras yn rhyddhau oddiwrth groeſau, etto ni ddichon na chroes na chyſtudd ddiddymmu Gras Duw! Eiddo 'r Arglwydd oedd efe trwy 'r cwbl. Duw a edwyn enaid ei ſaint mewn cyfyngder. Y mae efe yn eu dewis mewn pair cyſtudd. Efe a gyfrif eu ſymmudiadau, ac a ddyry eu dagrau yn ei goſtrel. Eu deiſyfiadau a ddeuant ger ei fron, ac nid yw eu griddfannau guddiedig rhagddo.

5. Y mae *Abel yn llafaru etto* pa le bynnag y clywer gair Duw, na ddylai penteuluoedd duwiol ddigalonni llafaru'r gair yn eu tai. Yr oedd Adda yn offeiriad yn ei deulu, ac er i Cain barhau yn gyndyn, fe gafodd Abel y fendith: felly y mae ffydd yn dyfod trwy glywed, a chlywed trwy air Duw.

6. Y mae Abel ffyddlon *yn llafaru etto*, ac yn cyhoeddi i'r holl fyd, "Y dylid addoli Duw (Tad, Mab, ac Yſpryd) yr hwn yw awdwr ein bywyd a ffynnon ein trugareddau, yn yr hwn y mae pob perffeithrwydd a dedwyddwch; ac efe yw ein Brenhin a'n Deddfwr. Y dylid ei addoli mewn ffydd; *Trwy ffydd yr offrymmodd Abel aberth rhagorach nâ Chain.* Dylid ei addoli yn ol ei gyfreithiau ei hun, nid yn ol dychymmygion dynion. Dylid ei waſanaethu â'r galon, ac â'r peth pennaf a'r a feddom; Abel a offrymmodd y goreu o'r praidd, *y blaen ffrwyth*, nid y dall, y cloff, *&c.* Canys y mae Duw yn Frenhin mawr! dylid ei addoli â gwreſogrwydd ein ſerch, ac addfwynder ein hieuengctid, ei garu â'n holl galon, ac â'n holl nerth, yn ol ei orchymyn ei hun; eithr cofiwn fod ein perſonau a'n gwaſanaeth yn gymmeradwy yn unig trwy'r Cyfryngwr, canys *Duw a edrychodd ar Abel ac ar ei offrwm*, ar yr addolydd yn gyntaf, ac yna ar ei rodd! felly yr ydym *gymmeradwy yn yr Anwylyd.*

7. Megis y mae Abel *wedi maew yn llafaru etto*, felly

felly y mae'r eglwys yn fyw etto. Fe debyg'sai rhefwm, pan ddarfu am Abel, na safai duwioldeb yn hir, eithr fe aned Seth, yr hwn a dderbyniodd yr un ffydd, ac a rodiodd yn yr un Yspryd ; ac felly, o oes i oes, y mae gan Dduw eglwys ar y ddaear, ychydig had yn gwneuthur coffadwriaeth o'i Enw, ac felly y bydd tra parhao haul a lleuad! gan hynny na lwfrhawn er gweled rhai defnyddiol yn eu dydd yn cael eu cymmeryd ymaith. Y mae'n wir pan gymmerir y cyfiawn ymaith fod achos i ystyried, ac y mae galar Crist'nogol yn weddus i'w coffadwriaeth. Pan fu farw Moses, holl Israel a alarodd. Teulu Jacob a alarodd am fammaeth Rebecca, *Gen.* xxxv. 8. a'r Ysgrythur a eilw le ei chladdedigaeth *Allon Baccuth*. Y mae gweinidogion ffyddlon yn fammaethod, ac y mae dagrau parchus yn ddyledus iddynt. Eliseus a gŵynodd am Elias, 2 *Bren.* ii. 12. gan ddywedyd, *Fy nhad! fy nhad! cerbyd Israel a'i farchogion.* Am ei fod yn well cadernid i'r wladwriaeth nâ'r holl gerbydau a'r gwyr meirch trwy'r deyrnas. Pan labyddiwyd Stephen, *gwyr bucheddol a wnaethant alarnad drosto.* Y prif-grist'nogion a wylasant ar wddf Paul, *am na welent ei wyneb ef mwy.* Er hynny, gwybyddwn pan byddo'r dynion mwyaf defnyddiol yn yr eglwys farw, etto nid yw'r eglwys yn marw, o blegid y mae Crist, Pen yr eglwys yn byw byth. Mawr oedd y colled, o golli Elias, eithr ei fantell a syrthiodd ar Eliseus. Felly gwedi marw Joseph, ymgeleddwr ei genedl yn yr Aipht, ni chawsant drengu ym maes Zoan, eithr yr Arglwydd a gadwodd ei Israel yn fyw, ac a gyflawnodd ei addewid iddynt, yn ol gair Joseph yn ei farwolaeth, *Yr Arglwydd a fydd gyd â chwi ac a'ch dwg chwi i fynu o'r wlad hon.*

III. *Y mae Abel wedi marw yn llafaru etto*, megis merthyr ffyddlon dros y gwirionedd, ac yn datgan y gelyniaeth sy rhwng y ddau had; ni chydfyddant

ant mwy nâ dwfr a thân, goleuni a thywyllwch; canys pa gyttundeb ſydd rhwng Criſt a Belial? Y mae Abel yn dyſt o wirionedd yr ymadrodd, *Brawd a rydd frawd i farwolaeth*, Mat. x. 21. Nid oes elyniaeth yn y byd cyn gryfed a gelyniaeth yr annuwiol yn erbyn y duwiol. Efe a wna gam â nattur, a dyr trwy'r rhwymau cryfaf, ac a ddilea goffadwriaeth y tad a genhedlodd, y fam a ddug yn ei chroth, a'r bronnau a roiſant ſugn; efe a anghofia bob caredigrwydd, a dry ddyn yn anifail, ac a fâl ewyn fel badd o'r coed neu fwyſtfil rheipus. Fe ddywed rhai haneſwyr ddarfod i Herod, gwedi lladd holl blant Bethlehem, ladd ei fab ei hun, mewn gobaith i ladd y plentyn Ieſu, rhag i'r hwn a aned yn Frenhin yr Iuddewon gael diangc yn fyw. Rhaid i ddyſgyblion Criſt godi'r groes; pwy bynnag a ewyllyſio fyw yn dduwiol yng Nghriſt Ieſu a erlidir. Criſt a'r groes, crefydd a chyſtudd, duwioldeb ac erlyd, ydynt yn gyffredinol yn cydfyned. Y mae canlynwyr Criſt yn ddieithriaid yn y byd, am hynny na ddiſgwylient am lawer o roeſaw gan blant y byd. Milwyr ydynt dan ei faner ef yn erbyn yſpryd y byd, a'i ddrwgarferion, pechod, a themtaſiynau ſatan, am hynny na ryfeddent os cânt eu clwyfo weithiau. Teithwyr ydynt tu a gwlad arall, ac nid rhyfedd os cyfarfyddant â hin demheſtlog, ac ambell ddiwrnod garw.

2. Y mae Abel fel merthyr, yn tyſtio yn oleu, mai *gwerthfawr yng olwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei ſaint ef*; felly yr oedd marwolaeth Abel, canys Duw a ymofynnodd am ei waed ef, ac a ddywedodd wrth Cain, "Pa le y mae Abel dy "frawd?"

3. *Y mae Abel wedi marw yn llafaru etto*, ac yn tyſtiolaethu fod Duw wedi goſod dydd ym mha un y barna efe weithredoedd dynion: canys os dielir ar y cyfion, pa fodd y diangc y pechadur a'r annuwiol?

nuwiol? "Cyfiawn yw ger bron Duw dalu blinder "i'r rhai sydd yn eich blino chwi," medd yr apostol, 2 *Thes.* i. 5, 6.

Bellach, brysiwn at Gymhwysiad, eithr, yn gyntaf ystyriwn y geiriau, yn fyrr, mewn ystyr arall, sef fel y mae rhai yn ewyllysio eu cyfieithu, *Abel wedi marw a laferir etto am dano.* Y mae hyn yn wir, canys y mae ein Harglwydd yn llafaru yn barchus am dano, gan ei alw yn *Abel gyfiawn*, Mat. xxiii. 35. Efe oedd un o'r *henuriaid a gafodd air da*, fel y dywed Sant Paul. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig." Yr ydym yn darllain yn Genesis vi. fod cawri ar y ddaear, dynion *enwog*, eithr enwog mawn drygioni oeddynt; am hynny ni chofféir hwynt yn Llyfr Duw: eithr enw Abel, Seth, Enos, &c. a draddodir yn ofalus o genhedlaeth i genhedlaeth: ïe, fe 'u cofir yn barchus tra y mae 'r cawri wedi eu claddu mewn angof: ac os sonir am neb o'r annuwiol, fe 'u henwir gyd â nod o ddirmyg, megis Ahab ddrygionus, Jesabel waedlyd, &c. Eithr, yn y gwrthwyneb, y mae'r duwiol yn cael eu henwi gyd â nôd neu ditl o anrhyded, megis Noa gyfiawn, Moses addfwyn, Abraham ffyddlon, &c. Yn ddiau gras yw'r etifeddiaeth orau, a gwir Grist'nogrwydd yw'r unig *wir* * foneddigrwydd.

## Y CYMHWYSIAD.

Gwelwn gan hynny, y dylem gymmeryd sulw o fywyd, ac ymarweddiad y cyfryw ag y sydd yn rhagori mewn ffydd a duwioldeb, pwy bynnag fyddont.

Y mae siamplau'r duwiolion er iddynt farw *yn llafaru etto*, o ran eu grasusau, ac o ran eu dioddefiadau: y maent yn llafaru o blaid y gwirionedd,

ac

* *Hæc tua nobilitas sola est, atque unica virtus.*

ac er cywilydd i ddrwg fuchedd; y maent yn llafaru er anrhydedd i Griſt, gogoniant Duw, ac adeiladaeth dynion; ac ni a ddylem eu dilyn hwy fel y maent hwythau yn dilyn Criſt. *Meddyliwch am eich blaenoriaid*, medd Paul, *ffydd y rhai dilynwch*, &c. Heb. xiii. 7. Amryw o Weinidogion ffyddlon a alwyd adref yn ddiweddar; ac yn enwedig y parchedig Mr. George Whiteffield, ſeren o'r maintioli mwyaf yn eglwys Criſt ar y ddaear. Ei dafod ydoedd fel arian detholedig, a chwedi ei gyffwrdd â marworyn oddi ar allor Duw. Ei athrawiaeth a ddiſgynnodd fel y gwlaw, a'i ymadrodd a ddefnynnodd fel y gwlith: canwyll yn goleuo ydoedd, a'i zel a annogodd lawer. Efe a lafuriodd yn helaeth, ac yr oedd bendith helaeth ar ei waith. Ei weddi a gyrhaeddodd i'r nefoedd, a phechaduriaid digywilydd a wridient yn ei ŵydd. Ei daran a ddeffroai gydwybodau cyſglyd, ei bregeth a ddychrynai 'r rhagrithwyr, ac a barai i deyrnas y tywyllwch grynu. Yſgrifenydd ydoedd wedi ei ddyſgu i deyrnas Dduw; ac yn medru dwyn allan o'i dryſorau bethau newydd a hen. Eithr efe a ymadawodd! gadawodd y babell hon! efe a gwblhaodd ei waith, a orphennodd ei yrfa; ac y mae yn awr lle y mynych ddymunodd fod, yn y wlad lle nad oes bechod, gyd â'r ſanctaidd lu, Patriarciaid, Prophwydi a Merthyron, a ddaethant allan o'r cyſtudd mawr, yn canu rhyw newydd gân am waredigol ras, a thragywyddol gariad rhad! Ond pwy a fedd ar ei ddoniau i fyned allan i'r prif ffyrdd a'r caeau? Pwy a rybuddia'r genhedlaeth bechadurus, aflan a chableddus; dan y rhai y mae'r ddaear yn ochain, ac am y rhai y mae uffern yn agor ei ſafn yn anferth? Pa ſawl congl tywyll ſydd etto yn y deyrnas hon, ac yng ngwledydd America, lle y mae'r bobl yn rhodio mewn tywyllwch ac heb lewyrch iddynt? llawer ſydd yn newynu am fara 'r bywyd, llawer ſydd yn wylo yn y

dirgel, ac yn galaru dros bechodau 'r oes. Oh! Whitffield, ai amser i ti farw ydyw? pa ham y symmudwyd y fath ganwyll o'i lle? ond, Oh! Arglwydd, ni ymddadleuwn â thi am dy farnedigaethau; dy ewyllys a wneler. O! fy enaid! pa ham yr ŵyli? newid yr enw yn y testun, dod Whitffield yn lle Abel, ac wele, (mutato nomine) *Y mae efe yn llafaru etto*;

1. Y mae efe yn llafaru wrth holl weinidogion efengyl Crist, o ba enw bynnag y maent.

Hynod oedd ei gariad ar yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a'i cymhellodd i lafurio yn ddiflino yng ngwasanaeth yr efengyl: ie, cariad Crist a'i gyrrodd i raddau o zel, a'r amserau, nas gallasai rheswm ei amgyffred, eithr boddlon oedd efe ei gyfrif yn ffol er mwyn Crist; ie, i fod yn ddim, cyhyd ag y byddai Crist yn bob peth. Yr oedd ganddo y fath olwg ar odidowgrwydd person Crist, cyfoeth ei ras, helaethrwydd ei gariad, haeddiant ei aberth, a'i addasrwydd ymhob ystyriaeth i swydd Cyfryngwr, fel na fedrai dewi â son am dano. A chan gydnabod, mai 'r cyfryw adnabyddiaeth o Grist oedd yr annogaeth gryfaf i garu a chadw ei orchymynion: efe a gynghorodd eraill i wneuthur defnydd o hono yn lle mil o ymresymiadau a arferir gan ddynion yn gyffredin. Ac o herwydd mai cariad oedd ei egwyddor, nid oedd bosibl ei gadw oddi wrth ei ddyledswydd trwy wg na gweniaith. Ac, yn sicr, heb y cyfryw gariad ni lwydda tafodau dynion nag angylion i ynnill eneidiau at Dduw.

2. Mawr oedd ei gariad at eneidiau dynion, efe a lawenychai yn eu iachawdwriaeth fel un wedi cael yspail lawer: a boddlon oedd i dreulio ac ymdreulio i wneuthur lles iddynt. Ie, efe a garai bawb a garent ein Harglwydd Iesu Grist mewn gwirionedd, pa fodd bynnag y byddent yn anghytuno mewn pethau amgylchiadol, efe a gymmerai

merai achlysur hefyd i symmud rhagfarn, yr hyn sydd yn rhy fynych yn cael gormod o le gyd â dynion o yspryd pleidiol. Ac yn ddiammau, pwy bynnag nad yw yn meddiannu cariad at eneidiau dynion, pe byddai ganddo ddawn angel, a zel merthyr, nid yw ond fel efydd yn seinio neu simbal yn tingcian.

3. Y mae efe yn llafaru yn ei ymlyniad wrth athrawiaethau sylfaenol yr efengyl, efe a deimlodd effaith ac a fwynhaodd gysur y gwirioneddau a bregethodd i eraill; y gwirioneddau pwysfawr hynny sy 'n tueddu i ddarostwng hunan-dyb, i ddyrchafu Crist a rhâd ras, ac i annog i'r sancteiddrwydd calon a buchedd, oedd y testynau a hoffai fwyaf. Yr oedd rhai yn tramgwyddo wrth ei zel, ond rhai oeddynt a fuasai yn tramgwyddo yn yr un modd wrth zel Paul pe cawsent ei glywed. Ei gariad at Dduw a dynion oedd yn ei arwain i wrth-brofi y rhai a wadent Dduwdod Crist, cyfiawnhad trwy ffydd, cyfiawnder cyfrifol, genedigaeth newydd, a gwaith yr Yspryd. Ni oddefai efe yr athrawiaeth sydd yn dyrchafu gweithredoedd y ddeddf yn lle cyfiawnder Crist, na'r athrawiaeth sydd yn dysgu ymfoddloni ar ffydd farw heb weithredoedd, 'chwaith! Efe a wyddai fod gŵyrdroi yr ysgrythurau yn peryglu bywyd eneidiau, ac am hynny mai nid addfwynder a chariad a fuasai tewi a dioddef, ond mai eithaf creulondeb a fuasai. Eithr er ei fod yn dal athrawiaethau sylfaenol mor lew, etto mewn pethau amgylchiadol nid oedd neb yn fwy parod i gyd-ddwyn.

4. Y mae ei *zel* yn llafaru etto, Oh! gyd â'r fath fywiogrwydd y cyfeiriai efe ei ymadrodd at bob cyflwr o ddynion: nid yn gysglyd ac yn farwedd. Zel a'i gwnai yn hyf dros Dduw, a barai iddo wylo dros ddynion anghymmodlon na fynnent ddychwelyd. Zel a'i cymhellai i weddio dros y rhai a'i melldithiai.

 Y mae

Y mae efe *wedi marw yn llaſaru etto* wrth wyr ieuaingc ſy'n cael eu dwyn i ſynu mewn yſgolion, ar iddynt geiſio bendith ar eu dyſg, er fod dyſgeidiaeth ddynol yn dda, nid yw yn ddigonol. Yr oedd dyſg Mr. Whiteffield yn fuddiol iddo: er hynny oni buaſai dyſgeidiaeth yr Yſpryd, pa ragoriaeth a fuaſai rhyngddo ef ag eraill? Nid yw gweinidogion dibrofiad o bethau Duw yn ſwy tebyg i wneuthur lles i ddynion, nag ydyw i wr ddiffodd tân wrth ddarllain traethawd am rinweddau dwfr glân.

Y mae'r parchedig Mr. Whiteffield yn llaſaru wrth holl deyrnas Loegr, Cymru, Scotland, Iwerddon, a thrigolion America: oni cheiſiodd efe i chwi ddaioni fel y byddai heddwch o ſewn i'ch muriau a llwyddiant yn eich palaſau? Eich aml feiau a baraſant iddo ofid. Efe a wylodd o blegid yr anwybodaeth, y balchder, torri ſabbathau, a'r ffieidd-dra a wnaid yn eich plith chwi. Efe a ymdrechodd i'ch diwygio: y mae miloedd a allant dyſtio mor ddiwyd yr ymboenodd yn y gair a'r athrawiaeth, fel y pregethodd ac y cynghorodd ddydd a nos mewn amſer ac allan o amſer, gyd â phob hir ymaros, ac a ydych chwi etto yn parhau yn anghrediniol ac yn anufudd? os felly, fe fydd y poen a gymmerodd, y chwys a gollodd, y dwylaw a eſtynnodd, y gwirionedd a draethodd, ie 'r nefoedd a'r ddaear, y prif-ffyrdd a'r caeau yn dyſt i'ch herbyn os meirw fyddwch yn eich pechodau:
——Ond yn ſwy enwedigol,

Y mae efe wedi marw yn llaſaru etto wrth y rhai oedd ſwyaf dan ei athrawiaeth, yn Llundain, Briſto', &c. ymofynned y cyfryw ai nid eu pechodau oedd yr achos iddynt ei golli mor fuan? Onid yw Duw yn gorchymyn i'r cymmylau na wlawiont ar y winllan ddiffrwyth, Eſa. v. 6. Argoel barn yw fod y Prophwydi yn cael eu cymmer-

yd ymaith. Pan fu farw Elifeus, fe ddaeth y Moabiaid i wlad Ifrael, 2 *Bren.* xiii. 20. Mr Whiteffield, Mr. Howel Dafis, Mr. Adams a fuont feirw yn yr un flwyddyn ! O ! dihangwn i'r noddfa, ceifiwn arch erbyn y diluw. Gweddiwn ar Dduw gyfodi rhai ieuaingc yn lle'r hen, ambell Dimotheus yn lle Paul yr henafgwr ! Chwithau alarwyr, yftyriwch er eich cyfur, er fod eich gweinidog *wedi marw*, y mae'r Iefu yn *fyw*. Iddo ef yr wyf yn eich gorchymyn, dan ei ofal y byddoch hyd oni chaffoch chwi ynghyd â'i holl weifion ef, weled ei wyneb mewn gogoniant.—*Amen.*

---

## Gan feddwl na fydd yn annerbyniol gan y Darllenydd glywed ychwaneg am yr enwog Mr. WHITEFFILD, a thymmer ei Enaid yn amfer ei ymadawiad, ni a roddafom yma Goppi o'i LYTHYR CYMMYN.

YN enw'r Tad, Mab ac Yfpryd Glân, tri Pherfon yn un Duw : Myfi *George Whiteffild*, gweinidog yr efengyl, 'nawr yn trigo yng Ngholeg yr ymddifad-ty *(Orphan-houfe)* yn nhalaith Georgia yn America-ogleddol, yr hwn wyf trwy anfeidrol drugaredd yn mwynhau iechyd corphorol yn amgenach nâ chyffredin, ac heb ddim gwendid fynhwyrau, na therfyfg meddwl, gan wybod fod angau yn ficr, eithr yr amfer yn anficr ym mha un y'm gelwir trwy angau, i'm gartref tragywyddol yr hwn yr wyf er ys talm yn mawr hiraethu am dano, ydwyf yn gwneuthur fy Ewyllys a'm Teftament diweddaf hwn, fel y canlyn :

*Yn gyntaf*, Mewn ficr a diogel obaith o adgyfodiad i fywyd tragywyddol trwy ein Harglwydd Iefu Grift, rhoddaf fy nghorph i'r llwch, fef i'w gladdu yn weddaidd, nid yn falchaidd; a chan wybod i bwy y credais, ac y ceidw efe yr hyn a roddais i'w gadw atto erbyn y dydd hwnnw, yr wyf mewn llawn ficrwydd ffydd yn gorchymmyn fy enaid i ddwylaw 'r tragywyddol, yr hawddgar, a'r byth ffyddlon Iefu, yng-nghyfiawnder perffaith pa un yr wyf yn cwbl ymddiried y caf fy nghyfiawnhau, ac y cymmeradwyir fy nhlawd, a gwael, etto (gobeithio) cywir a didwyll gyflawniadau, pan ddel efe yng ngogoniant ei Dad, ei ogoniant ei hun, a gogoniant ei angylion fanctaidd, i farnu y byw a'r meirw. Mewn perthynas i'm gofalon yn America, yr hyn a gymmerais yn llaw, yn hollol ac yn ddiduedd er mwyn ei enw mawr, yr wyf yn gadael yr adeilad a elwir yn gyffredin yr *Ymddifad-ty*, yn Bethefda, yn nhalaith Georgia, ynghyd â'r holl adeiladau a wnaethpwyd yno yn ddiweddar, a phob adeilad arall, tiroedd, dynion duon, llyfrau, dodrefn, a pha beth bynnag a berthyn i mi yn nhalaith Georgia ragddywededig, i'r arglwyddes etholedig honno, a mam yn Ifrael, drych o grefydd ddihalog, yr Anrhydeddus SELINA, Iarlles Huntington, gan ddymuno, mor gynted ag y gellir ar ol fy marwolaeth, bod perffeithio adeiladaeth yr ymddifad-ty a fwriodwyd yn ddiweddar yn Coleg Bethefda, yn ol y dull a arfaethwyd; neu, oni ellir, neu os ni fynnir, gwneuthur felly, bod parhau *Academy* 'r ymddifad-ty ar ei hen fylfaen, yn ol y drefn brefennol: eithr os gelwir yr arglwyddes i'w gorphwysfa ogoneddus cyn fy marw, yr wyf yn cymmynu yr holl adeiladau, tiroedd, a phob peth a enwyd eifoes, ag fydd yn perthyn i mi yn nhalaith Georgia i'm hannwyl gydweithiwr cyntaf, a'm ffyddlon gyfaill fafadwy,

yr

yr anrhydeddus *James Haberſham*, Eſq; blaenor anrhydeddus gyngor mawrhydi 'r brenhin; ac os bydd efe byw ar ol yr arglwyddes, yr wyf yn ei gyfrif yn addas i gymmeryd y gofal yn ei lle hi, yn gyſtal ag i ofalu droſti hi, ynghylch *Academy*, neu yſgol yr ymddifad-ty. Mewn perthynas i'm pethau oddi allan yn Lloegr, yn gymmaint a bod yno adeilad a elwir y Babell, er ys llawer o flynyddoedd wedi ei neilltuo at addoliad Duw, yr wyf yn cymmynu fy nywededig Babell a'r tŷ yn perthyn iddo, lle y trigwn pan oeddwn yn Llundain, ynghyd â'r ſtabal, cerbyd-ty, dodrefn, llyfrau, a phob peth a feddaf yn y lle hwnnw, ac hefyd yr adeilad a elwir *Totnam Court Chappel*, a phob adeilad yn perthyn iddo, yr yſtabal, cerbyd-ty, a phob peth a feddaf yn y rhan honno o'r ddinas, i'm cyfeillion teilwng, ffyddlon, profiadol, Daniel Weſt, Eſq; yn *Church-ſtreet*, *Spitalfields*, a Mr. Robert Keen, brethynwr yn y *Miniories*, neu i'r hwyaf a fyddo byw o honynt.

Ac mewn perthynas i'r arian y rhyngodd bodd i ddaionus ragluniaeth Duw ymddiried i mi, yn ddiweddar, mewn ffordd anniſgwyliadwy, a thrwy foddion annhebygol; yr wyf yn rhoddi ac yn cymynu i'r wir anrhydeddus Iarlles Huntington, 100 punt, gan attolygu i 'r arglwyddes dderbyn y cyfryw hatling fechan megis pypuren o gydnabyddiaeth am yr anrhydedd anhaeddiannol a yſtofodd arnaf, heb ei ofyn, gan fy ngwneuthur i, yr hwn wyf *lai nâ'r lleiaf*, yn Chaplain teuluaidd iddi. Hefyd, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu i'm hanwyl garedig gyfaill, y rhagddywededig anrhydeddus *James Haberſham*, awrlais euraidd fy ngwraig gynt, a deg punt at alarwiſgoedd; I'm hanwyl hen gyfaill Gabriel Harries, Eſq; o ddinas Caerloyw, yr hwn a'm llettyodd ac a'm groeſawodd yn ei dŷ, pan oeddwn yn ddiymgeledd, ynghylch

hylch ys pymtheng mlynedd ar hugain a aethant heibio, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmunu y swm o 50 *l.* I'm goftyngedig a'm ffyddlon wasanaethwr a'm cyfaill Mr. Ambros Wright, os bydd yn fy ngwasanaeth i yn Lloegr neu yn America, ar amser fy ymadawiad â'r byd, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 500 o bynnau. I'm brawd Mr. Richard Whiteffild, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 50 o bunnau. I'm brawd Mr. Tomas Whiteffild, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 50 punt, i'w rhoddi iddo ef wrth ewyllys da y rhagddywededig Mr. Robert Keen. I'm brawd ynghyfraith, Mr James Smith, hosaneuwr, o ddinas Bristaw, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 50 *l.* a 30 *l.* at alarwisgoedd i'r teulu. I'm nith, Mrs. Ffrances Hart, o'r Bath, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 50 *l.* a 20 *l.* at alarwisgoedd i'r teulu. I Mr. John Crane, yr hwn sydd oruchwiliwr ffyddlon yn ysgol yr ymddifad-ty, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 40 *l.* I Mr. Benjamin Stirt yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth diweddar yn Bethesda, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 10 punt at alarwisgoedd. I Peter Edwards, yn awr yn ysgol yr ymddifad-ty, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 50 *l.* I Wiliam Trigg, sydd yno hefyd, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 50 *l.* y ddau swm ddywededig i'w rhoddi allan, neu i'w trysori i fynu iddynt hwy yn ol ewyllys da y dywededig Mr. Ambros Wright : I Mr. Tomas Adams, o Rodborough, yn sir Gaerloyw, fy nghyd-lafurwr cyntaf, a charedig yn yr Arglwydd, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 50 *l.* I'r Parchedig Mr. Howel Dafis, o sir benfro, y milwr da hwnnw i Iesu Grist ; ac i Mr. Torrial Joss, a Mr. Cornelius Winter, a phawb o'm caredig gynnorthwywyr, y pregethwyr yn y babell, a chappel Totnam Court, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu bob

o

o ddeg punt at alarwisgoedd: I dri brawd Mr. Ambrose Wright ac i wraig ei frawd Mr. Robert Wright, sydd yn llafurio yn fedrus ac yn ffyddlon, ac yn gweini yn ysgoldy yr ymddifaid, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu pob o ddeg punt, at alarwisgoedd: I Mr. Richard Smith yr hwn sydd ffyddlon gydymaith i mi, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu 50 *l.* a'm holl ddillad a fyddo gennyf ar fy nhaith trwy America, neu wrth fordwyo tu a Lloegr, os rhynga bodd i'r Duw cwbl-ddoeth i fyrrhau fy nyddiau yn y cyfryw sefyllfa. Yn ddiweddaf, yr wyf yn rhoddi ac yn cymmynu y swm o 100 punt i'w cyfrannu yn ol trefniad fy *executorion* a enwir isod, at alarwisgoedd rhwng fy hen weinidogion yn Llundain, a'r rhai gweddwon tlodion yn ymyl cappel *Tottenham court*, a'r tlodion wrth y Babell, yn enwedig fy hen weinidoges ffyddlon a diduedd, Mrs. Elizabeth Woods: a'r relyw beth bynnag fo, os bydd ychwaneg yn bod, o arian, meddiannau, neu werth llyfrau, neu lawsgrifenadau a adawyf ar fy ol, yr wyf yn eu rhoddi ac yn eu cymmynu i'r anrhydeddus Iarlles Huntington; neu, os bydd yr arglwyddes farw o'm blaen i, yr wyf yn eu rhoddi i'r anrhydeddus James Habersham, rhagddywededig, gwedi talu'r costau at fy nghladdedigaeth, a phob gofynion cyfreithlon, tu ag at dalu yr hyn a ddichon fod yn ddyledus arnaf at ysgoldy yr ymddifaid, neu wobrwyon blynyddol am dair o'r areithiau goreu a wnelir ar y testynau a grybwyllir mewn papur cysylltiedig wrth fy hwn ewyllys: ac yr ydwyf trwy hyn yma yn gosod y dywededig James Habersham, Yswain, i fod yn wneuthurwr treftadog fy ewyllys hwn yn y pethau a berthyn i America, sef talaith Georgia; a'm cywir, cariadol, a phrofiadol gyfeillion, Charles Hardy, Ysw; Daniel West, Ysw; a Mr. Robert Keen, i fod

yn

yn wneuthurwyr treftadog fy ewyllys dywededig a'm teftament hwn ym mhob peth a berthyn i Loegr, gan attolygu iddynt oll dderbyn galarfodrwy. I'm holl Gymmwynafwyr Crift'nogol eraill, a'm cydnabod cyfeillgar, yr wyf yn gadael fy ngharediccaf ddiolch a'm bendith, gan dyftio iddynt fy mod yn cael fy argyhoeddu fwy fwy o ficrwydd diamheuol, ac anfeidrol bwys y gwirioneddau mawrion a draddodais o bryd i bryd; ac mor bell oddiwrth fod yn edifar gennyf eu traddodi mewn ffordd ymdeithgar, fel pe b'ai gennyf allu yn gyfattebol i'm hewyllys, mi a'i pregethwn o begwn y gogledd hyd begwn y dehau, nid yn unig am fy mod wedi eu profi yn allu Duw er iachawdwriaeth i'm henaid fy hun, eithr hefyd o herwydd yr wyf mor ficr fod Pen gogoneddus yr eglwys wedi'm galw trwy ei air, ei ragluniaeth, a'i Yfpryd i lafurio yn y modd yma, a bod yr haul yn goleuo ganol dydd. Mewn perthynas i'm gelynion, a'm cyfeillion fydd trwy gamfynied yn fy ngham-farnu, yr wyf yn rhydd o'm calon yn maddeu iddynt, ac ni chaf ond ychwanegu hyn, fef, y bydd i'r dydd diweddaf, y dydd mawr a dychrynadwy, ar fyrr ddatguddio pa fath oeddwn, ydwyf, ac a fyddaf *pan na bydd amfer mwy!* am hynny yr wyf o wraidd fy enaid, yn dibennu'r cwbl trwy lefain, "Tyred Arglwydd Iefu! tyred ar frys! yn wir tyred, Arglwydd Iefu! Amen, ac Amen".

GEORGE WHITEFFILD.

Fe 'fgrifenwyd hwn â llaw'r Teftamentwr ei hun, ac ar ei ddeifyfiad, ac yn ei wydd, a feliwyd, nodwyd, ac a draddodwyd, yn yfgol-dy

gol-dy yr ym-ddifaid, yn nhalaith Georgia, ger ein bronnau ni, y Tyſtion, Mawrth 22, 1770.

ROBERT BOLTON,
TOMAS DICSON,
CORNELIUS WINTER.

*N. B.* Yr wyf yn gadael galar-fodrwy i'm hanrhydeddus, anwyl, a diŵyr-gais gydweithwyr, y Parchedig Mr. John a Charles Weſley, yn arwydd o undeb annattodol â hwynt, mewn calon, a chariad criſt'nogol, er ein bod yn anghyttuno yn ein barn ynghylch rhai pyngciau o athrawiaeth. Gras a fyddo gyd â phawb o ba enw bynnag, ſydd yn caru ein Harglwydd Ieſu Griſt, eu Harglwydd hwy a ninnau, mewn gwirionedd.

*Na fyddwn anobeithiol driſt,*
*Am neb yng Nhriſt a hunant;*
*Medd Paul, o'r corph maent gyd ag ef*
*Yng nghartref y gogoniant.*

# At y CYFFREDIN.

YN gymmaint ag na chawſom gynnifer o enwau at y MYNEGEIR YSGRYTHUROL, neu GONCORDANS CYMRAEG, ag oeddym yn ddiſgwyl: a chan farnu fod y bobl gyffredin, er mwyn pa rai yr amcanwyd yn bennaf, yn ei weled yn rhy ddrud, Hyn ſydd i hyſpyſu i'r cyffredin, ein bod yn bwriadu ei argraphu yn llawer llai nag y ſoniwyd o'r blaen, ac etto, os bydd boſibl, ei wneuthur yn agos mor fuddiol, ſef trwy nodi (nid pob gair yn y Bibl, eithr) y geiriau pennaf ym mhob ymadrodd, ac felly ei gynnwys mewn ynghylch tair neu bedair Rhan, deg Papurlen ym mhob rhan, a'i werthu am ſwllt y Rhan: ac mi a allaf ſicrhau i'r pwrcaſwyr, y bydd felly yn rhagorach o lawer nâ'r *Concordans* a argraphwyd yn *Penſilvania*; Diammau fod mynegeir Cymraeg yn angenrheidiol, a phe gwybyddai llawer o Griſt'nogion mor fuddiol yw'r cyfryw Lyfr i hyfforddi'r darllenwyr i aſtudio a dyall yr Yſgrythurau ſanctaidd, y mae yn ddiau gennyf y dymunent ei gael: y mae rhai athrawon wedi tyſtio na fyddent heb y fath lyfr er llawer o arian ac os bydd dynion yn caru gwybodaeth, pa han. nad yw mor angenrheidiol i wrandawyr wrtho ag i athrawon?

*N. B.* Fe ddiſgwylir i bob bwrcaſwr dalu dau Swllt gyd â'i enw, ſef, i'r rhai oedd yn derbyn rhagdaliadau at y Bibl, a'r relyw o'r arian wrth dderbyn y llyfr oll ynghyd pan orphenner.